# Dewch i Ddarganfod...

# **yr Amffitheatr a'r Barics!**




Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

AMGUEDDFA CYMRU

# Ble mae popeth?




## Edrychwch ar ein stori weledol

Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i bob dysgwr gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol.

# Sut i gyrraedd...

## yr Amffitheatr

**O Faddondai'r Gaer Rufeinig**

Gyda'r Baddondai tu ôl i chi, cerddwch ar draws y maes parcio at y ffordd. Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y palmant at y groesfan sebra. Croeswch y ffordd, trowch i mewn i Broadway, a cherdded nes y gwelwch chi'r maes parcio bysiau. Mae'r amffitheatr gyferbyn â'r maes parcio hwn.

**O Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**

Trowch i'r chwith allan o'r amgueddfa, croeswch y ffordd fawr ar y groesfan sebra. Trowch i mewn i Broadway, a cherdded nes y gwelwch chi'r maes parcio bysiau. Mae mynedfa'r amffitheatr gyferbyn â'r maes parcio hwn.

**O'r Barics**

Mae mynedfa'r amffitheatr groesgornel i fynedfa Broadway i lwybr troed y Barics, yn union gyferbyn â'r cilfannau parcio bysiau.

## Porth y Gorllewin a'r Barics

**O Faddondai'r Gaer Rufeinig**

Gyda'r baddondai tu ôl i chi, cerddwch ar draws y maes parcio ceir at y ffordd. Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y palmant at y groesfan sebra. Croeswch y ffordd, trowch i mewn i Broadway. Cerddwch ar hyd Broadway am tua canllath nes gwelwch chi blac Porth y Gorllewin yn y palmant.

**O Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru**

Trowch i'r chwith allan o'r amgueddfa, croeswch y ffordd fawr ar y groesfan sebra. Croeswch y ffordd, trowch i mewn i Broadway. Cerddwch ar hyd Broadway am tua canllath nes gwelwch chi blac Porth y Gorllewin yn y palmant.

**O'r Amffitheatr**

Dilynwch y palmant o ben draw'r man parcio bysiau tuag at y llecyn glaswellt â ffens o bolion coed o'i amgylch. Mae plac Porth y Gorllewin i'w weld yn y palmant, yn union wedi i chi fynd heibio i gornel y cae, lle mae'r ffordd yn culhau.

# Defnyddio eich loculus

Y gair Lladin am fag ysgol, neu ‘satchel’ yw ‘loculus’. Roedd loculus yn rhan o becyn gorymdeithio milwr yn y lleng Rufeinig a dyma lle byddai’n cadw ei fwyd ac eitemau personol.

Mae’r replica hwn o loculus yn cynnwys cyfarwyddiadau, gwybodaeth a gwrthrychau i helpu eich grŵp i ddeall sut oedd y Rhufeiniaid yn defnyddio’r amffitheatr a’r barics.



## Cynnwys

- Llyfryn cyfarwyddyd A4 wedi’i lamineiddio, at ddefnydd arweinwyr grwpiau
- Llyfryn lluniau A4 wedi’i lamineiddio, yn cynnwys ffotograffau, lluniau wedi’u hail-greu a mapiau.
- Atgynyrchiadau: cetil (sbigyn metel â 4 fforch mewn cod ledr frown tywyll), darnau arian (denarii ac aureus mewn cod ledr frown golau), sbwng ar ffon.

## Cyfarwyddiadau ar gyfer arweinwyr grwpiau

Dilynwch y cyfarwyddiadau yn y llyfryn i fynd â chi i’r 10 lleoliad yn yr amffitheatr a’r barics.

Ar gyfer pob lleoliad, gellir darllen testun **trwm** yn uchel i'r grŵp, ynghyd â llun, gwrthrych neu weithgaredd.

Ar ôl ymweld â’r amffitheatr a’r barics, cofiwch ddychwelyd y locwlws a’i gynnwys i staff Caerfaddon neu Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.

# Y Barics - Pwynt 1

## Plac Porth y Gorllewin, Broadway




**Mae'r plac yn y palmant yn nodi lle'r oedd porth gorllewinol y Gaer. Dyma un o bedwar porth i mewn ac allan o'r Gaer.**

**Dychmygwch gatiau pren mawr, trwm a waliau cerrig bron mor uchel â'r coed.**

**Pan oedd y gatiau ar gau, doedd neb yn gallu dod i mewn na mynd allan. Roedd edrych i fyny a gweld golygfa o'r fath yn codi arswyd ar y Celtiaid lleol.**

# Y Barics - Pwynt 2

## Amddiffynfeydd y Gaer



Cerddwch o Borth y Gorllewin tuag at y maes parcio bysiau, a throwch i'r dde ar y llwybr troed yn union cyn y clawdd.

Cerddwch ar hyd y llwybr troed nes gwelwch chi lwybr pridd yn arwain at fwlch yn y clawdd ar y dde i chi.

Ewch â'ch grŵp i lawr y llwybr i waelod y ffos a dangoswch lun 1 iddyn nhw – llun wedi'i ail-greu o'r ffos a'r waliau amddiffyn – o'r llyfryn lluniau.

**Roedd 6,000 o filwyr yn byw yn y Gaer. Roedd ffosydd fel hon yn amgylchynu waliau'r Gaer.**


Gofynnwch i'r grŵp os gallan nhw awgrymu atebion i'r cwestiynau hyn:

**Pam oedd y ffos mor ddwfn?**
Byddai'r ffos wedi'i llenwi â dŵr ac yn anodd ei chroesi.

**Pam oedd tyrau ar hyd waliau'r Gaer?**
Gallwch chi weld yn llawer pellach o dyrau uchel nag o'r ddaear. Byddech chi'n gallu gweld eich gelyn pan oedd ymhellach i ffwrdd, gan roi mwy o amser i chi baratoi.

# Dyfalwch beth yw'r gwrthrych!

Tynnwch y cetil allan o'r god ledr a dangoswch hi i'r grŵp. Gofynnwch i'r grŵp beth maen nhw'n feddwl yw hi a beth oedd ei phwrpas.




**Cetil yw hon. Roedd y Rhufeiniaid yn gwasgaru'r rhain ar y ddaear, mewn ffosydd ac o amgylch eu gwersylloedd i'w diogelu rhag eu gelynion, y Celtiaid.**

**Filoedd o flynyddoedd wedyn, daeth archaeolegwyr o hyd i lawer o'r rhain wrth gloddio yn y ddaear yn yr ardal hon.**

**Mae cetilau yn glanio gyda phwynt yn wynebu ar i fyny bob tro, ac maen nhw'n anodd eu gweld yn y glaswellt. Byddai camu ar un yn rhoi anaf cas i berson neu geffyl.**

# Y Barics - Pwynt 3

## Adeiladau'r Barics




Cerddwch i fyny'r llwybr o'r ffos i mewn i'r Barics. Yn syth o'ch blaen, mae adfeilion waliau adeiladau'r barics.

**Dyma'r barics lle'r oedd y milwyr yn byw. Roedd hyd at 6,000 o filwyr yn byw yn y Gaer bron i 2,000 o flynyddoedd yn ôl.**


Dangoswch lun 2 i'r grŵp – llun wedi'i ail-greu o adeilad y barics – o'r llyfryn lluniau.

**Roedd 8 milwr yn cysgu mewn gwelyâu bync ym mhob un o'r ystafelloedd mwy o faint, a mwy na thebyg bod yr ystafelloedd bach yn cael eu defnyddio i storio'u harfwisgoedd, eu harfau a'u tariannau.**

Cerddwch ar hyd adfeilion y barics i'r pen pellaf, Pwynt 4.

# Y Barics - Pwynt 4

## Ystafelloedd y Canwriad




**Mae cynllun y pen yma i'r barics yn wahanol. Beth welwch chi?**
Mae yna fwy o ystafelloedd yn y rhan hon ac maen nhw'n fwy o faint.

**Yr ystafelloedd hyn oedd cartref y Canwriad. Pwy oedd y Canwriad?**
Y dyn yng ngofal yr holl filwyr yn y lleng hon.

**Roedd ganddo le llawer mwy o faint i fyw ynddo. Roedd ei deulu a'i gaethweision yn byw yma hefyd. Ystafelloedd gwely oedd rhai o'r ystafelloedd, ac eraill yn swyddfeydd. Hefyd, roedd tŷ bach preifat yma am na fyddai'r teulu eisiau defnyddio'r un tai bach â'r milwyr.**

Tynnwch y darnau arian allan o'r god swêd a phasiwch nhw o gwmpas y grŵp.


**Denarius yw hwn. Roedd yn ddarn arian cyffredin iawn i'r Rhufeiniaid. Roedd wedi'i wneud o arian, ac yn gyflog diwrnod i filwr y lleng. Roedd y milwyr yn ennill tua 300 denarii y flwyddyn.**

Dangoswch y darnau aur o'r god swêd a phasiwch nhw o gwmpas y grŵp.

**Aureus yw hwn. Roedd wedi'i wneud o aur. Roedd y Canwriad yn ennill mwy o arian na milwyr cyffredin y lleng ac mae'n debyg mai'r darnau aur hyn fyddai ei gyflog.**

# Y Barics - Pwynt 5

## Tai bach





Yr ochr arall i ystafelloedd y Canwriad, cyn i chi ddod at y clawdd glaswellt, mae adfeilion y tai bach.

Dangoswch lun 3 i'r grŵp – llun wedi'i ail-greu o'r tai bach – yn y llyfryn lluniau.

**Fel gwelwch chi, roedd milwyr Rhufeinig yn mynd i'r tŷ bach gyda'i gilydd. Roedden nhw'n eistedd ar fainc hir a thyllau ynddi, wedi'i chodi dros y ffos ddraenio. Roedd dŵr yn rhedeg ar hyd y ffos ddraenio gan gario'r gwastraff i ffwrdd. Er bod y ffos o dan y ddaear, roedd hi'n rhedeg gydag ochr adeiladau'r barics, felly mae'n sicr bod fan hyn yn ddrewllyd iawn, yn enwedig yn ystod yr haf.**

# Dyfalwch beth yw'r gwrthrych!

Dangoswch y sbwng ar ffon i'r grŵp. Gofynnwch i'r grŵp awgrymu beth oedd ei bwrpas.




**Doedd dim papur tŷ bach yng nghyfnod y Rhufeiniaid. Roedd milwyr Rhufeinig yn sychu eu pen ôl gan ddefnyddio sbwng wedi'i glymu i ffon. Roedden nhw'n eu cadw nhw mewn potiau o finegr yn y tai bach. Roedd y finegr yn lladd y germau a'u cadw nhw'n lân.**

**Roedd cwteri o flaen mainc y tŷ bach, a thyllau ar flaen y fainc. Byddai'r milwyr yn gwthio'r sbwng drwy'r twll i sychu eu pen ôl. Wedyn, roedden nhw'n rinsio'r sbwng yn y gwter cyn ei roi yn ôl yn y pot finegr.**

# Y Barics - Pwynt 6

## Y Gegin




**Roedd sawl cegin yn y Gaer. Ar un adeg, byddai pob un yn cynnwys platfform wedi'i godi, a oedd yn sylfaen ar gyfer tân coginio a phoptai fwy na thebyg. Doedd y ceginau ddim yn fawr iawn.**


**Mae'n debyg mai cymryd eu tro i goginio i'w gilydd fyddai'r milwyr. Mae'n bosib bod trefn rota ganddyn nhw, neu efallai mai coginio oedd eu gwaith.**

**Roedd gan y milwyr bedyll ffrio a sosbenni mawr i goginio eu bwyd ac roedden nhw'n rhostio cig dros y tân. Roedd y Rhufeiniaid yn hoffi defnyddio sbeisiau, olew olewydd a saws pysgod o'r enw garum i roi blas ar eu bwyd. Roedd llongau'n dod â bwyd i Gaerllion o wledydd eraill yr Ymerodraeth Rufeinig.**

**Roedd gan bob milwr ei gyllyll a ffyrc (cytleri) ei hun ar gyfer bwyta. Roedd angen iddyn nhw fod yn fach ac yn hawdd eu cario pan fydden nhw'n teithio.**

# Y Barics - Pwynt 7

## Y Poptai Bara






**Yn ogystal â choginio dan do, roedd y milwyr yn pobi bara bob dydd. Mae adfeilion 10 o boptai bara yn dal i'w gweld, ond os edrychwch chi ar y bylchau rhyngddyn nhw, mae'n debyg bod o leiaf 20 o boptai yma'n wreiddiol.**

**Gallai fod mwy o'r poptai hyn mewn mannau eraill yn y gaer, ac mae'n bosib fod gan bob adeilad yn y barics ei bopty ei hun. Roedd y poptai'n cael eu cynhesu drwy losgi pren, felly roedd angen i'r milwyr fynd i gasglu coed tân a'i gario'n ôl yma.**

Gofynnwch i'r grŵp os ydyn nhw'n gwybod pa gynhwysion sydd eu hangen i wneud bara. - Blawd, halen, dŵr, burum ac ychydig o olew

**Mae'n cymryd cryn amser i wneud bara. Roedd yn rhaid i'r milwyr falu'r grawn yn flawd, ei gymysgu gyda'r cynhwysion eraill a thylino'r toes. Roedden nhw'n gadael i'r toes godi cyn ei ailffurfio a'i bobi yn y popty. Byddai'r torthau i gyd yn cael eu coginio gyda'i gilydd felly sut oedd y milwyr yn gwybod pa un oedd eu torth nhw?**

**Dangoswch lun 4 i'r grŵp – stamp bara – yn y llyfryn lluniau.**

**Dyma stamp bara. Mae'n cael ei arddangos yn yr Amgueddfa. Dyma oedden nhw'n ei ddefnyddio i stampio pob torth cyn ei rhoi yn y popty. Wedyn, byddai pob torth yn cael ei rhoi i'r sawl oedd wedi'i gwneud hi.**


# Nawr, arweiniwch eich grŵp yn ôl yr un ffordd ag y daethoch.

Mae'r fynedfa i'r amffitheatr groesgornel i fynedfa Broadway i lwybr troed y Barics, yn union gyferbyn â'r cilfannau parcio bysiau.

Os ydych chi'n brin o amser, awgrymwn eich bod yn trafod pwynt 2, y brif arena a'r gweithgaredd ar y diwedd.

# Amffitheatr - Pwynt 1

## y Brif Fynedfa




**Ar un adeg, roedd Caerllion yn dref fawr brysur, ac ar lan yr afon yr ochr draw i'r amffitheatr, roedd doc prysur lle byddai llongau'n dod â nwyddau, ac efallai'n mynd â milwyr oddi yma i rannau eraill o'r Ymerodraeth Rufeinig.**


**Roedd llawer o bobl yn byw yma – milwyr yn y gaer, a masnachwyr a chrefftwyr yn y dref a dyfodd o amgylch y gaer. Roedd y milwyr oedd yn byw yma yn disgwyl cael gwneud rhywbeth yn eu hamser hamdden. Gallen nhw nofio yn y Baddondai, ond roedden nhw eisiau adloniant hefyd.**

**Stadiwm fawr oedd yr amffitheatr, gyda seddau i tua 6,000 o bobl, sy'n golygu bod yr holl filwyr oedd yn byw yn y gaer yn gallu dod yma gyda'i gilydd. Mae chwe mynedfa i'r arena, felly doedd dim angen i'r bobl giwio'n rhy hir i fynd a dod.**

**Pan fyddwn ni'n mynd i weld gêm bêl-droed neu gyngerdd, neu i wylio ffilm, rhaid i ni dalu i fynd i mewn. Yng nghyfnod y Rhufeiniaid, byddai pobl yn defnyddio talebau i fynd i mewn i'r amffitheatr i wylio'r adloniant.**

# Amffitheatr - Pwynt 2

## Canol yr Arena




Ewch i mewn i'r arena, cerddwch i'r canol. Gofynnwch i'r grŵp edrych o'u cwmpas a dychmygu'r lle'n llawn o bobl mewn seddau uwchben y waliau, yn aros i'r adloniant ddechrau. Byddai llawer o sŵn, a'r awyrgylch yn llawn hwyl – byddai'n lle cyffrous!

Dangoswch lun 5 i'r grŵp – ail-gread o'r amffitheatr – yn y llyfryn lluniau.

**Roedd y waliau cerrig o gwmpas yr arena wedi'u gorchuddio â phlastr a'u paentio'n wyn gyda llinellau coch i wneud iddyn nhw edrych fel pe baen nhw wedi'u hadeiladu o gerrig mawr gwyn. Byddai'r waliau hyn bron mor uchel â'r coed. Roedd yr amffitheatr yn lle trawiadol iawn gydag 8 mynedfa fwaog lle'r oedd y gladiatoriaid a'r anifeiliaid yn cael eu gadael i mewn i'r arena. Roedd miloedd o seddau pren mewn rhesi uwchben ochrau uchel yr arena oedd wedi'u hadeiladu o fwd a cherrig. Byddai'r seddau gorau yn y tu blaen, ond roedden nhw'n ddrud. Yn y cefn fyddai'r bobl dlawd, y menywod a'r plant yn eistedd. Mae'n debyg y byddai llawr yr arena wedi'i orchuddio gan haen o dywod rhag i'r gladiatoriaid lithro yn y mwd.**

Gofynnwch i'r grŵp pa fath o weithgareddau maen nhw'n feddwl fyddai wedi digwydd yma.

**Roedd dynion ac anifeiliaid yn ymladd yma, a dynion yn ymladd dynion, ac weithiau roedd menywod yn gallu bod yn ladiatoriaid hefyd, a'r enw arnyn nhw oedd gladiatrix.**

**Roedd rhai o'r gladiatoriaid yn broffesiynol ac yn enwog, ac yn ddrud iawn i'w llogi. Fel sêr y byd pop a chwaraeon heddiw, roedden nhw'n adnabyddus iawn a llawer o ddilynwyr ganddyn nhw.**


**Roedd rhai o'r gladiatoriaid yn filwyr a hoffai ymladd yn eu hamser hamdden.**

**Troseddwyr oedd rhai o'r bobl oedd yn ymladd am eu bywydau yma. Yn lle mynd i'r carchar, eu cosb oedd ymladd yn erbyn anifeiliaid neu'r gladiatoriaid.**

**Mae'n bosib hefyd fod yr amffitheatr, sydd wrth ymyl y maes gorymdeithio, yn cael ei defnyddio gan y milwyr fel man ar gyfer hyfforddi'n ddiogel ac ymarfer defnyddio arfau.**

# Amffitheatr - Pwynt 3

## Lloc yr Anifeiliaid





**Yn y Coliseum yn Rhufain, yr amffitheatr fwyaf yn y byd yng nghyfnod y Rhufeiniaid, roedd yr anifeiliaid yn cynnwys llewod a llewpardiaid o Affrica, ond yma yng Nghaerllion, mae'n debyg mai baeddod gwyllt, eirth neu fleiddiaid oedd yr anifeiliaid, a byddai modd eu dal yn lleol.**

**Mae'n debyg y byddai'r anifeiliaid yn cael eu trin yn wael iawn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymosod ar bobl wrth iddyn nhw gael eu rhyddhau i mewn i'r arena.**

# Amffitheatr - Pwynt 4

## Cysegr Nemesis






**Byddai'r gladiatoriaid yn eistedd yma cyn mynd i mewn i'r arena i ymladd.**

**Roedden nhw'n gweddïo ac yn offrymu pethau i Nemesis, sef duwies ffawd a dial. Byddai pobl eraill yn gadael melltithion yma yn y gobaith o allu dial a chael cyfiawnder.**

**Roedd y Rhufeiniaid yn addoli sawl duw ac yn credu bod y duwiau'n rheoli eu bywydau. Roedd pob duw yn gysylltiedig â rhyw agwedd ar fywyd, er enghraifft Mawrth oedd duw rhyfel, Neifion oedd duw'r môr, a Ciwpid oedd duw cariad.**

Dangoswch lun y llechen felltith i'r grŵp, llun 6 yn y llyfryn lluniau. Gofynnwch iddynt awgrymu beth allai fod, a beth oedd ei phwrpas. Mae llechen felltith yn cael ei harddangos yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.

**Dyma lechen felltith. Mae hi wedi'i gwneud o blwm a chafodd ei darganfod yn yr arena fan hyn. Ar y llechen, mae'r geiriau Lladin yn dweud: I'r Dduwies Nemesis, rhoddaf y clogyn a'r esgidiau hyn. Na fydded i'r sawl a aeth â nhw eu cael yn ôl, oni bai drwy golli ei fywyd. Mae'r sawl a ysgrifennodd y felltith yn gofyn i Nemesis felltithio'r person wnaeth ddwyn ei eiddo.**

**Ychydig uwchlaw'r fan hon, roedd seddau'r bobl bwysig – dyma'r seddau gorau yn yr amffitheatr am fod pawb yn gallu gweld y bobl oedd yn eistedd yno.**

# Gweithgaredd hyfforddi milwr Rhufeinig

## Gall y gweithgaredd hwn gymryd hyd at 15 munud

Gofynnwch i'ch grŵp sefyll mewn rhesi syth yn y brif arena, tua hanner metr oddi wrth y waliau cerrig. Sefwch ynghanol yr arena a dywedwch:

**Rydych chi'n rhan o'r fyddin orau yn y byd. Chi yw milwyr ail leng Awgwstws!**

Eglurwch y termau canlynol:

**"Intente" (in-ten-tay) – sythwch! – rhaid i bawb sefyll yn syth**
**"Sin" – chwith – y droed chwith ymlaen**
**"Dex" – de – y droed dde ymlaen**

Nawr, gweiddwch 'intente', yna 'sin' neu 'dex', a dywedwch wrth y grŵp am orymdeithio o gwmpas yr arena ac yn ôl i'w man cychwyn.

Gofynnwch i'r holl oedolion ffurfio rhes ar ochr arall yr arena, yn wynebu'r grŵp.



# Gobeithio eich bod wedi mwynhau crwydro'r Amffitheatr a'r Barics!

Ewch â’ch grŵp i’r pwynt nesaf ar eich amserlen, a dychwelwch y loculus i’r staff yno.

**Parhau i weld delweddau**


Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

AMGUEDDFA CYMRU



DELWEDD 1 – LLUN WEDI'I AIL-GREU O'R FFOS A'R WALIAU AMDDIFFYN



DELWEDD 2 - LLUN WEDI'I AIL-GREU O ADEILAD Y BARICS




DELWEDD 3 - LLUN WEDI'I AIL-GREU O'R TAI BACH



DELWEDD 4 - STAMP BARA



DELWEDD 5 - AIL-GREAD O’R AMFFITHEATR



DELWEDD 6 - LLECHEN FELLTITH